


Tuag at Undod Cristnogol



Tuag at Undod Cristnogol

Casgliad o ddyfyniadau i hybu trafodaeth ymhlith
Cristnogion ar ein taith gyda'n gilydd.

Detholiad gan Gomisiwn Undod Cristnogol Archesgobaeth Caerdydd

Cyhoeddwyd yng Nghymru yn 2014

Archesgobaeth Caerdydd
43 Cathedral Road
Caerdydd
CF11 9HD

© Archesgobaeth Caerdydd 2014

© Llun y clawr: Y Parchedig Sally Massey Thomas

Mae diolch yn ddyledus i ddeiliaid yr hawlfraint yn y dyfyniadau am eu caniatâd i ddefnyddio'r deunydd yn unol â'n cais.

Ar gael i'w lawrlwytho o:
www.rcadc.com

Dylunio: Pentagon Design Cyf.
www.pentagondesign.com

Rhaid inni beidio fyth ag anghofio mai pererinion ydyn ni, yn cyd-deithio gyda'n gilydd. Mae hyn yn golygu fod gennym ymddiriedaeth diffuant yn ein cyd-bererinion, gan ochel pob amheuaeth a diffyg ffydd, a chan droi ein golygon tuag at yr hyn yr ydym i gyd yn ei geisio, sef disgleirdeb y tangnefedd ar wyneb Duw.

Pab Ffrancis, 2013, *Evangelii Gaudium* (Llawenydd yr Efengyl)

Rhagair

Mae Ail Gyngor y Fatican, ddigwyddodd rhwng 1962 a 1965, yn un o'r cerrig milltir mwyaf arwyddocaol ym mywyd yr Eglwys Gatholig. Ymysg y nifer o ddogfennau addysgol darddodd o'r cyngor hwnnw, mae *Unitatis Redintegratio* (*Adfer Undod*) wedi cael dylanwad dwys a pharhaus ar yr Eglwys Gatholig mewn perthynas ag Eglwysi Cristnogol a Chyrff Eglwysig eraill. Mae gweddi Iesu 'fel y byddant oll yn un' yn aros fel her ac ymrwymiad i bawb sy'n ei ddilyn Ef. Mae *Unitatis Redintegratio* yn arddangos y ffordd sy'n dal i'n harwain tuag at undod yn ein dyddiau ni. Mae'r cyd-deithio yn fendith ac yn foddion gras.

Rwy'n croesawu'r casgliad hwn o ddyfyniadau ar bwnc ceisio Undod Cristnogol. Fe'i cyfansoddwyd gan Gomisiwn Undod Cristnogol Archesgobaeth Caerdydd ac mae'n nodi dathliad hanner canrif ers cyhoeddi *Unitatis Redintegratio*. Bydd y llyfryn o fudd mewn gweddiâu a myfyrdod personol yn ogystal â bod o gymorth i grwpiau wrth drafod a gweddiâu gyda'i gilydd yn eu hawydd i gyflawni gorchymyn Iesu.

Haelioni Cymdeithas y Marchogion Pabaidd, Cylch Caerdydd o'r Gymdeithas Gatenaid, Marchogion Columba, Caerdydd, a nifer o unigolion, dyna sydd wedi'n galluogi i gyhoeddi'r llyfryn. Rwy'n dymuno diolch yn ddiffuant iawn i Dr Harri Pritchard Jones am gyfieithu'r dyfyniadau a'n galluogi i gynnig llyfryn dwyieithog. Rwy'n fwy na bodlon i ategu fy niolch innau at werthfawrogiad y sawl fydd yn defnyddio'r gwaith yn y blynyddoedd sydd i ddod.

+George Stack
Archesgob Caerdydd
Awst 2014

Annwyl Gyfeillion, rydyn ni'n ymwybodol o'r heriau, y bendithion, y siomedigaethau a'r arwyddion gobeithiol sydd wedi nodweddu'n taith eciwmenaidd ... Rydym yn ymddiried y rhain i gyd i'r Arglwydd, gan ymddiried yn ei ragluniaeth a grym ei ras.

Fe wyddom fod y cyfeillgarwch a dyfodd rhyngom, y dialog sydd wedi dechrau a'r gobaith sy'n ein harwain, yn cynnig nerth a chyfeiriad wrth inni ddyfalbarhau ar ein taith gyda'n gilydd.

Pab Bened XVI, 17.09.2010, Dathliad Eciwmenaidd, Abaty Westminster

Yng Nghrist y gonglfaen
Mae'r cerrig byw yn un,
Un gwinwydd ac un corff
Un eglwys ynddo'i hun,
Ac er ein mwyn – ei allu Ef,
A rydd i ni holl ras y nef.

Charles Wesley
Cyf. Denzil John

Mewn Egwyddor

Mae credo yng Nghrist yn golygu ein bod yn ymofyn undod; ymofyn undod yn golygu ymofyn yr Eglwys; mae ymofyn yr Eglwys yn golygu ymofyn cymundeb gras sy'n cyfateb i gynllun y Tad ar gyfer tragwyddoldeb. Felly mae deall gweddi Crist: '*Ut unum sint*' (*Boed iddynt fod yn un*).

Pab Ioan Paul II, 1995, *Ut unum sint: Cylchlythyr ar ymrwymiad yr Eglwys Gatholig i eciwmeniaeth, Catholic Truth Society (CTS)*

Sefydlodd Crist ei Eglwys yn un ac unigryw ... 'Credwn mewn un Eglwys Lân Gatholig ac Apostolig.' Felly, nid oes ond un Eglwys Crist. Fe ymunir â hi trwy fedydd sef 'y rhwymyn sagrafennaidd o undod sy'n bodoli ymysg pob aelod sydd wedi ei aileni trwyddi'. Fe wyddom, er hynny, nad yw bod wedi eich uno yn ysbrydol trwy fedydd cyffredin yn unig yn ddigon. 'Nod y mudiad eciwmeniaidd yn y pen draw yw sefydlu undod llawn, gweladwy ymysg pawb sydd wedi derbyn bedydd'.

Chiara Lubich, 2007, *Essential Writings*, gol. Michel Vandeleene, New City Press

Nid un peth ymysg llawer y mae'n rhaid i ni ymwneud ag ef yw undod Cristnogol. Mae'n fater teuluol. Trwy ein ffydd yng Nghrist, rhodd yr Ysbryd Glân a'n bedydd, rydym eisoes yn un teulu ynghyd – teulu Duw. Rydym mewn amryfal raddau o undod neu 'gymundeb' gyda'n gilydd, ac er bod yna wahaniaethau difrifol yn dal i'w goresgyn, rydym eisoes yn frodyr a chwiorydd yn yr un teulu – Corff Crist – ac mae hynny'n gwneud eciwmeniaeth yn rhywbeth y dylem fod yn frwd o'i phlaid. Fe fydd yna siomedigaethau a rhywstrau ar y ffordd at undod, fel yn hanes pob teulu, ac fe all gymryd amser hir. Ond gallwn ymddiried yn rhodd yr Ysbryd Glân o ddyfalbarhad, gobaith ac ymddiriedaeth ...

Gweithgaredd Duw yn ein mysg yw eciwmeniaeth, ond mae'n ein dewis ni i fod yn gydweithwyr iddo, yn weision i gymodi a chymundeb.

***Together in Christ*, 2009, Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr**

Mae'n hollol eglur nad rhyw fath o weithgarwch atodol a wneir yn ogystal â gweithgaredd arferol yr Eglwys yw hyrwyddo Undod Cristnogol. Yn hytrach, mae eciwmeniaeth yn rhan organig o'i bywyd a'i gwaith, ac felly yn gorfod treiddio i bopeth yw hi a phopeth mae hi'n ei wneud; rhaid iddo fod fel y ffrwyth sy'n tyfu ar goeden iach a llewyrchus sy'n prifio i'w lawn dwf.

Pab Ioan Paul II, 1995, *Ut Unum Sint*, CTS


Rhaid ein hatgoffa mai ein hymateb ni i ras Duw yw'r ymgais am undod. Gelwir ar bob Cristion i:

1. ffydd yn y math o Eglwys mae Duw ei heisiau.
2. gobaith yr atebir gweddi Iesu 'Boed iddynt fod yn un' yn ei holl gyfiawnder
3. cariad, sef rhodd yr Ysbryd yn uno pob credadun.

A study guide to The Search for Christian Unity, 2004, Talaith Gatholig Caerdydd, Cymru a Henffordd

Nid mater o ddewis ar gyfer Cristnogion cyfeillgar yn unig yw gweithio dros undod gweladwy'r holl eglwysi Cristnogol. Mae undod Cristnogol wrth galon yr Efengyl. Nid ystyr undod yw unffurfiaeth, na'n bod ni'n esgus nad yw'n gwahaniaethau yn bod, chwaith. Mae gweithio dros undod yn golygu canolbwyntio ar y pethau sy'n ein huno yn hytrach nag ar y pethau sy'n ein gwahanu, ac y dylem gydweithio cyn belled ag y gallwn. Petaen ni i gyd yn cydweithio dros les y gymuned, beth bynnag bo'n ymrwymiad crefyddol neu ddiffyg hynny, fe dyfem yn fwy unedig oherwydd bod Duw yn Dduw trugarog. Ac os gweddiwn gyda'n gilydd, yna bydd yr Ysbryd yn ein tynnu at ein gilydd.

Gerard W. Hughes SJ, 1998, *God of Compassion*, Hodder and Stoughton



*Sut gall y dimensiwn hanfodol
hwn o fod yn ddisgybl i Grist
gael ei ddatblygu?*

Yn yr Ysgrythur

Rwy'n gweddio ar iddynt oll fod yn un, ie, fel yr wyt ti, O Dad, ynof fi a minnau ynot ti, iddynt hwy hefyd fod ynom ni, er mwyn i'r byd gredu mai tydi a'm hanfonodd i.

Ioan 17:21

Os yw'n wir mai ffenomen gweddol ddiweddar yw'r mudiad eciwmenaidd fel rhywbeth penodol a threfnus, mae'r syniad o undod pobl Dduw, y mae'r mudiad yn bwriadu ei adfer, yn mynd yn ôl i'w sylfaen yn yr Ysgrythur. Roedd yr undod hwn yn fater o ofid cyson i'r Arglwydd¹ Bwriad y mudiad yw undod Cristnogion mewn ffydd, gobaith a chariad², mewn parch at ein gilydd³ a brawdgarwch⁴, ond hefyd, ac yn bennaf oll, undod organig yng Nghrist, fel y winwydden a'i changhennau⁵, y pen ynghyd ag aelodau'r corff⁶. Dylai'r undod hwn fod yn un perffaith, yn gyffelyb i undod y Tad a'r Mab⁷. Mae ei sylfaen diwinyddol yn yr Ysgrythur⁸; mae'r gymuned apostolaidd cyntaf yn fodel byw o'r hyn y dylai fod⁹.

Comisiwn Beiblaidd Pabaidd, 1995,

The Interpretation of the Bible in the Church, gol. J. L. Holden, SCM

Os bydd Cristnogion yn darllen Gair Duw, ac yn gwneud hynny ar y cyd, bydd yn cryfhau'r cwlwm hwn o undod a'u galluogi i fod yn fwy agored i'r weithred honno o uno gan Dduw. Dylid gwneud popeth i hyrwyddo astudio'r Beibl ar y cyd.

Chwilio am Undod Cristnogol,

2002, Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr

¹Ioan 10,16; 17, 11.20-23

²Effesiaid 4,2-5

³Philippiaid 2,1-5

⁴1 Corinthiaid 12,14-27; Rhufeiniaid 12, 4-5

⁵Ioan 15, 4-5

⁶Effesiaid 1,2-23; 4,12-16

⁷Ioan 17,11.22

⁸Effesiaid 4,4-6; Galatiaid 3,27-28

⁹Actau 2,44; 4,32

Mae'r Efengyl i'w rhannu a'i phregethu. Cyfoethogir bywyd cyffredin Crist hefyd mewn cenhadu ar y cyd ac efengyliaeth. Pan fo'r genhadaeth yna a'r efengylu'n cael eu cyflawni gan Gristnogion o fwy nag un eglwys leol, maen nhw'n fwy grymus, o achos mai'r hyn a gymeradwyir yw nid aelodaeth o eglwys leol, rhywun ychwanegol yn y gynulleidfa, ond y newyddion da am Iesu Grist.

Y Parchedig Bill Snelson, 2006, *Enriching Communion, Churches Together in England*

Datgan y gair, dathlu'r sagrafennau a byw mewn ysbryd cariad yw gweithgareddau sylfaenol [yr Eglwys] fel corff Crist.

Mae Catholigion a Methodistiaid yn credu mai Crist ei hun sy'n llefaru pan fo'r Ysgrythur yn cael ei ddatgan a'i bregethu'n ffyddlon, fel y cyhoeddodd yr Ysgrythur i'r disgyblion ar y ffordd i Emaus cyn torri'r bara gyda nhw; mai Crist ei hun sy'n gweinyddu pan fo'r sagrafennau'n cael eu dathlu; a bod y cariad sy'n rhan annatod o fywyd Cristnogion yn 'gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd' (Rhufeiniaid 8:39).

Encountering Christ the Saviour, 2011, Adroddiad Comisiwn Rhyngwladol yr Eglwys Gatholig Rufeinig a Chyngor Methodistaidd y Byd

Ar y cyd, gall Cristnogion:

ddarllen a myfyrio dros lyfrau penodol yn yr Ysgrythur sanctaidd mewn grwpiau bach, fel rhan o'u taith ysbrydol gyda'i gilydd ...

myfyrio dros y Testament Newydd er mwyn cynyddu eu dealltwriaeth o weinidogaeth gymodol yr Arglwydd a'i mabwysiadu.

Cardinal Walter Kasper, 2007, *A Handbook of Spiritual Ecumenism*, New City Press

Mae dwysbarchu'r Ysgrythurau yn rhwymyn sylfaenol rhwng Cristnogion, un sy'n dal yn gadarn hyd yn oed pan nad yw'r Eglwysi a'r Cymunedau Eglwysig y maen nhw'n perthyn iddyn nhw mewn cymundeb llawn â'i gilydd.

Mae popeth a ellir ei wneud er mwyn i aelodau'r Eglwysi hynny ddarllen Gair Duw, a gwneud hynny gyda'i gilydd lle bo hynny'n bosib, yn cyfnerthu eu gallu i ymagor i weithgarwch unol Duw. Yn ogystal, mae'n cryfhau'r dystiolaeth unedig i Air achubol Duw y maen nhw'n ei gyflwyno i'r byd.

Directory for the Application of Principles and Norms on Ecumenism,
1993, CTS



*Sut gall rhannu'r Ysgrythur
gyfrannu at berthynas agosach ymysg
cymunedau Cristnogol?*

Mewn Gweddi

Boed i'r Arglwydd Atgyfodedig gyfnerthu ein hymdrechion i drwsio rhwygiadau'r gorffennol ac wynebu heriau'r presennol gyda gobaith yn y dyfodol y mae Ef, yn ei ragluniaeth, yn ei gynnig i ni ac i'r holl fyd. Amen.

Pab Bened XVI, 17.09.2010, Dathliad Eciwmenaidd, Abaty Westminster

Dylai gweddi bob amser ymwneud â'r dyhead am undod, ac felly mae'n un o'r rhannau sylfaenol o'n cariad at Grist a'r Tad sy'n helaeth ei drugaredd. Ar y daith hon yr ydym wedi mentro arni gyda Christnogion eraill... rhaid i weddi gael y safle blaenaf.

Pab Ioan Pawl II, 1995: *Ut Unum Sint*, CTS

Am ein bod yn gobeithio am ras helaeth Duw, cawn ein hannog i ddyfalbarhau ac i wynebu trafferthion tyfu ynghyd. Rhoddwn ogoniant i Dduw 'sydd â'r gallu ganddo i wneud yn anhraethol well na dim y gallwn ni ei ddeisyfu na'i ddychmygu'. Effesiaid 3, 20.

***Growing Together in Unity and Mission*, 2007, SPCK**

Mae gweddi yn ein galluogi i gyrraedd haenau dyfnach o'n hunain, lle y dechreuwn ganfod yr undod â Duw sydd hefyd yn ffynhonnell undod o fewn ein hunain a chydag eraill. Mewn gweddi, ac wrth wrando ar brofiadau pobl eraill sy'n gweddio, daw yn eglur fod ein rhaniadau crefyddol ni yn y lle cyntaf yn ddiwylliannol yn hytrach na diwinyddol. Maen nhw'n ganlyniad cyflyru penodol yn hytrach na bod yn ffrwyth argyhoeddiadau. Gall ein haddysg grefyddol ein harwain i bwysleisio ein gwahaniaethau yn hytrach na'r ddiriaeth sy'n ein huno. Fel'na y collwn olwg ar y ffaith fod ein hundod yn gorwedd yn Nuw, nid mewn ffurfiau a strwythurau penodol.

Gerard W. Hughes SJ, 2003, *God in all Things*, Hodder and Stoughton

Mae gweddio mor hanfodol i undod Cristnogol ag yw anadlu i'r corff. Mae ceisio hyrwyddo undod Cristnogol heb sylfaen o weddio a chael ein hysbrydoli gan hynny fel ceisio adfer sgerbwdd yn ôl i fywyd trwy aildrefnu'r esgyrn.

Gerard W. Hughes, CI: 2010 *For God's Sake... Unity*, golygydd Maxwell Craig, Wild Goose Publications, Glasgow

Mae addoli yn amlwg yn rhan ganolog o fywyd pob Cristion ac o bob eglwys leol. Gan hynny, mae'n rhaid bod iddo ran allweddol i'w chwarae yn y bererindod at undod eglwysig. Mae gweddi gorfforaethol wedi bod yn rhan o'r mudiad eciwmenaidd ers dros ganrif.

Jenny Carpenter, 1998, *Together Locally*, CTE (Publications)

Mae'n wireb ei bod bron yn amhosib ffraeo gyda rhywun y buom yn gweddio'n daer gydag e funud yn ôl. Mae cydweddio'n newid ein perthynas â'n gilydd oherwydd bod pob gweddi ddiffuant yn rhodd gan Dduw, ac yn dwyn Duw gyda hi ...

Mae cydweddio hefyd yn ffordd ostyngedig ond ffyddlon o rannu yng ngweddi lesu, a addawodd y byddai unrhyw weddi yn ei enw yn cael ei chlywed gan y Tad.

***Together in Christ*, 2009, Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr**

Rydyn ni eisiau bod mewn cymundeb – gyda'n gilydd. Rydyn ni'n caru'n gilydd. Hwyrach fod gennym wahaniaethau o safbwynt gweledigaeth, gwahaniaethau o safbwynt diwinyddiaeth... Mae Iesu'n dweud rhywbeth am gymundeb – sut i fod gyda'n gilydd gyda geiriau nad ydynt yn tarddu o'n briwiau, ein tywyllwch a'n hangen am rym a goresgyniad, ond yn hytrach yn tarddu o ddymuniad am undod. Ac nid anwybyddu gwahaniaethau yw ystyr undod. Nid ymdoddi i'w gilydd yw ystyr undod chwaith. Mae Paul yn dweud ein bod i gyd yn wahanol. Dyna gydnabod gwahaniaethau. Ond dydy hynny ddim yn golygu ein bod yn mathru pob gwahaniaeth, chwaith.

Jean Vanier, mewn dyfyniad gan Bill Snelson, 2006, *Enriching Communion*, CTE Publications



*Beth yw'ch profiad chi o
gyd-weddio gyda chymunedau
Eglwysig eraill?*

Yn Ymarferol

Gyda'n gilydd fe wnawn ni wahaniaeth.

Mae dyletswydd ar blwyfi a chymunedau lleol i weithio gyda'i gilydd wrth ymateb i anghenion y byd cyfoes, gan geisio gwneud ar y cyd bopeth a ganiateir gan eu ffydd...Mae'r cydweithredu eciwmenaidd hwn yn allweddol o bwysig nid yn unig er mwyn hybu effeithiolrwydd ond er mwyn rhoi tystiolaeth gyffredin, ac er hyrwyddo eciwmeniaeth ysbrydol. Mae'n cynnig mynegiant eglur o'r cwlwm sydd eisoes yn eu huno, ac i'w safle cyffredin fel disgyblion yn dilyn Crist y Gwas. (Marc 10:45; Phil. 2:5-8).

Cardinal Walter Kasper, 2006, *A Handbook of Spiritual Ecumenism*, New City Press

Undod o fywyd ar y cyd mewn cariad a thrugaredd yw'r undod a geisiwn. Mae Cristnogion sy'n drugarog yn debycach felly i brofi ymdeimlad o undod gyda phobl drugarog beth bynnag fo eu credoau neu ddiffyg credo, na gydag aelodau o'u henwad eu hunain sy'n brin o drugaredd.

Nid cyfres o ddogfennau yw Duw, na ffurf o addoli, ond yn hytrach ffynhonnell pob bywyd a phob cariad. Mae dysgeidiaethau ein heglwysi, ein ffurfiau o addoli a'n cyfreithiau yn bwysig, ond modd i ymgynraedd at nod ydyn nhw, nid nod ynddynt eu hunain. Modd ydyn nhw i'n galluogi i ganiatáu i Dduw fod yn Dduw cariad a thrugaredd i ni, a thrwom ni, fel unigolion a chyda'n gilydd.

Gerard Hughes SJ, 2003, *God in all Things*, Hodder and Stoughton

Mae dirnad ffydd gyffredin yn herio'n heglwysi i gydnabod fod elfennau o sancteiddiad a gwirionedd yn bodoli ym mywyd eglwysig ein gilydd, a datblygu sianelau a ffyrdd ymarferol i fynegi ein cydweithio, er mwyn creu a chynnal bywyd a chenhadaeth gyffredin.

***Growing Together in Unity and Mission*, 2007, SPCK**

Sefydli'r gwir ddialog pan fo yna nid yn unig ynganu geiriau, ond gwranddo yn ogystal, a lle bo gwranddo'n arwain at gyfarfod, cyfarfod yn arwain at berthynas a pherthynas yn mynd yn ddealltwriaeth, wedi ei dirnad fel dyfnhau a thrawsffurfio ein bodolaeth fel Cristnogion. Mae dialog, felly, yn ymwneud nid yn unig â maes gwybodaeth a'r hyn y gallwn ei gyflawni, ond hefyd yn gwneud i'r credadun, yn wir yr Arglwydd ei hun, lefaru yn ein plith.

Pab Bened XVI, 2007, llythyr yn annerch y Trydydd Cynulliad Eciwmenaidd Ewropeaidd, Sibiu

Gallwn eistedd a bwyta gyda'n gilydd. Gallwn i gyd wneud rhywbeth yn lleol trwy gael cymdogion ... i fwyta, gweddio a chael parti gyda'i gilydd; i adeiladu perthynas o ymddiried a pharch dros nifer o flynyddoedd; i ddechrau cydweithio dros gyfiawnder a thosturi; a gweddio gyda'n gilydd dros gyfiawnder a thrugaredd yn ein byd anghyfiawn a chreulon.

Y Parchedig Ddoctor Inderjit Bhogal, mewn dyfyniad gan y Parchedig Bill Snelson, 2006, *Enriching Communion, Churches Together in England*

Os gallai Cristnogion fod yn ymwybodol o hanes ei gilydd, eu hysbrydolrwydd, eu traddodiadau o ffydd ac addoliad, eu dioddefiadau a'u gogoniannau, gallent dyfu'n nes at ei gilydd. ... Os gallai Cristnogion ddyngwared ei gilydd – nid mynd i wasanaethau ei gilydd yn unig, ond cofleidio ysbrydolrwydd a thraddodiadau ei gilydd – yna byddai'n bosib mabwysiadu llwybr un eglwys i sancteiddrwydd er mwyn ehangu'r llwybr i sancteiddrwydd yn y lleill yn ogystal.

Esgob Christopher Chessun, 2009, Sgwrs ar Eciwmeniaeth Ysbrydol, Eglwysi Ynghyd yn Ne Llundain



Pa gyfleodd sydd ar gael i gymunedau Eglwysig gydweithio'n agosach yn lleol, a sut mae hyn yn fynegiant o'r daith yr ydym arni gyda'n gilydd?

Ar ein taith...

Os byddwn yn canolbwyntio ar yr argyhoeddiadau sy'n gyffredin inni, ac yn cofio'r egwyddor o flaenoriaethau mewn gwirioneddau, fe allwn gymryd camau pendant ymlaen tuag at ddatgan, gwasanaethu a thystiolaethu i'n Cristnogaeth ar y cyd.

Does gennym ni mo'r hawl i anwybyddu'r lluoedd sydd heb dderbyn Efengyl Iesu Grist. O'r herwydd, ni all ymrwymiad i undod fydd yn foddion i'w cynorthwyo i dderbyn Iesu Grist fod yn fater o ddiplomyddiaeth neu gydsyniad gorfodol, ond yn hytrach yn llwybr hollol angenrheidiol at efengylu ... Mae cynifer o bethau pwysig yn ein huno.

Os ydym yn wirioneddol gredu yng nghyflawnder rhydd gweithgarwch yr Ysbryd Glân, yna gallwn ddysgu llawer oddi wrth ein gilydd. Nid mater o wybod mwy am ein gilydd yn unig yw hyn, ond yn hytrach medi'r hyn a heuwyd gan yr Ysbryd, sydd i fod yn rhodd inni ...

Trwy gyfnewid rhoddion, gall yr Ysbryd ein harwain fwyfwy i mewn i'r gwirionedd a'r daioni.

Pab Ffrancis, 2013, *Evangelii Gaudium* (Llawenydd yr Efengyl)

